


**Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu**

**Cofnodion y cyfarfod cyntaf**

**4 Rhagfyr 2018**

| **Yn bresennol - Aelodau** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Sophie Hinksman - Cydgadeirydd<br>Gwenda Thomas - Cydgadeirydd<br><br>Raghu Baburaj - Coleg Brenhinol y Seiciatryddion<br>Adrian Burke - Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Rebecca Cicero - Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Wayne Crocker - Mencap Cymru<br>Christine Griffiths - Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru<br>Julian Hallett - Cymdeithas Syndrom *Down*<br>Edwin Jones - Cymunedau Maes Ymddygiad Heriol<br>Martyn Jones - Anabledd Dysgu Cymru<br>Michelle Martin - Fforwm Gofal Cymru<br>Emma Mulinder - Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion<br>Ruth Northway - Prifysgol De Morgannwg<br>Joe Powell - Pobl yn Gyntaf Cymru<br>Hayley Tarrant - Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru<br>Oliver Townsend - Cymorth Cymru<br>Catherine Watchorn Pobl yn Gyntaf Cymru<br>Pauline Young - Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan<br><br>**Eraill**<br><br>Tracey Drew - cefnogi Sophie<br>Celia Lewis - cefnogi Catherine<br>Kelly Stuart - arsyllwr o Pobl yn Gyntaf Cymru | Dermot McChrystal – Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg<br>Jane Rodgers - Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan<br>Sharon Williams – Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| | |
|---|---|
| **Swyddogion**<br><br>Karen Eveleigh<br>Claire Hough<br>Graham Davies<br>Alyson Collins<br><br>**Yn bresennol ar gyfer eitemau ar yr agenda**<br><br>Julie Annetts/Anna Harris – swyddogion (eitem 7)<br>Andy Wallsgrove – Pennaeth Gweithrediadau, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru (eitem 8). | |

| **1.** | **Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol** | **Dyddiad y Cyfarfod** | **Cyfrifoldeb** |
|---|---|---|---|
| | Nid yw'n berthnasol | | |

| **2.** | **Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau** | |
|---|---|---|
| | 2.1 Croesawodd Sophie bawb i gyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu (GCGAD) a gwahoddwyd nhw i gyflwyno eu hunain a phwy yr oedden nhw yn ei gynrychioli.  Nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>2.2 Darllenodd Sophie y rheolau sylfaenol ar gyfer cyfarfodydd GCGAD ac atgoffodd aelodau o'r angen i wrando ar eraill a pharchu eu barn.<br><br>2.3 Llongyfarchwyd Ruth gan Sophie ar dderbyn Gwobr Cyflawniad Oes Prif Swyddogion Nyrsio'r DU. | |
| **3.** | **Cylch gorchwyl** | |
| | 3.1 Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer GCGAD a oedd wedi cael ei gylchredeg cyn y cyfarfod.  Wrth ymateb i ymholiad, dywedodd Karen fod Grwpiau Cynghori Gweinidogion wedi cael eu sefydlu i oruchwylio gwaith Llywodraeth Cymru a darparu cyngor i Weinidogion ac nid oedden nhw'n meddu ar unrhyw bwerau gweithredol. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | i. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon i gymeradwyo Cylch Gorchwyl GCGAD. | |
| **4.** | **Aelodaeth** | **Cyfrifoldeb** |
| | 4.1 Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod aelodaeth y grŵp wedi cael ei gryfhau drwy ychwanegu cynrychiolwyr o Gymdeithas Syndrom *Down*, Fforwm Gofal Cymru, Tai Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru. | |
| **Camau gweithredu** | i. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn fodlon â'r ychwanegiadau i'r aelodaeth.<br><br>ii. Cytunwyd pe bai'r grŵp angen cyfraniad penodol ar bwnc, gellid dod o hyd i hyn fel y bydd angen.<br><br>iii. Cytunwyd y byddai aelodaeth y grŵp yn cael ei hadolygu ym mis Rhagfyr 2019. | <br><br>**Aelodaeth/ Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **5.** | **Rhaglen Gwella Bywydau – adroddiad ynglŷn â chynnydd** | |
| | 5.1 Dywedodd Karen fod pob un o'r ddau ddeg pedwar o argymhellion yn awr yn cael eu hystyried fel camau gweithredu, a byddan nhw'n cael eu dangos fel y cyfryw mewn adroddiadau cynnydd yn y dyfodol.<br><br>5.2 Dywedodd Karen wrth y Grŵp ei bod wedi derbyn mwy o ddiweddariadau gan gydweithwyr polisi ynglŷn â rhai o'r camau gweithredu a byddai hi'n cylchredeg yr adroddiad cynnydd diweddaraf terfynol gyda chofnodion y cyfarfod.<br><br>5.3 Trafodwyd nifer o gamau gweithredu unigol:<br><br>Cam Gweithredu 1: Canolfan PNP (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) - dywedodd yr aelodau y bydden nhw yn hoffi mwy o wybodaeth ynglŷn â swyddogaeth y ganolfan PNP a sut mae'n gweithredu. Gofynnodd Gwenda a oedd y ganolfan PNP wedi gweithio gyda'r gwasanaethau gwarchod.<br><br>Cam Gweithredu 5 - Tai â Chymorth: Dywedodd Claire fod canllawiau ymarfer da | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ynglŷn â byw â chymorth yn cael eu datblygu ac mae'n debygol y byddan nhw'n cael eu lansio ym mis Mawrth.<br><br><u>Camau Gweithredu 9 a 10: Dull sy'n canolbwyntio ar unigolion/datblygu modelau o gyllid ar gyfer pecynnau gofal ar y cyd</u> - Tynnodd Karen sylw at y swyddogaeth bwysig sydd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gyflawni camau gweithredu ynghylch cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar y cyd. Hysbysodd y Grŵp ynglŷn â'r cyllid a oedd ar gael o dan y Gronfa Drawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig.<br><br><u>Cam Gweithredu 13: gwella'r nifer sy'n cymryd rhan ac ansawdd gwiriadau iechyd blynyddol</u> - Dywedodd Karen fod PMT Cymru wedi dod i gytundeb ynglŷn â manyleb ddiwygiedig ar gyfer gwiriadau iechyd blynyddol a fyddai'n cael eu cynnig i bob unigolyn dros 14 oed gydag anabledd dysgu. Tynnodd Karen sylw at y ffaith y byddai'r gwiriad yn cael ei gynnig i bawb ac ni fyddai yn gysylltiedig â difrifoldeb yr anabledd dysgu. Dywedodd Karen y byddai'r manyleb diwygiedig yn amodol ar drafod ffurfiol gyda PMT Cymru fel rhan o'r drafodaeth gyffredinol ar gyfer y gontract newydd ar gyfer meddygon teulu sy'n dechrau ym mis Ebrill 2019.<br><br>Y Camau nesaf:<br>• Cofnodi data yng nghofrestrau meddygfeydd meddygon teulu er mwyn sicrhau bod y gwiriad iechyd blynyddol yn cael ei gynnig i'r boblogaeth anabledd dysgu;<br><br>• Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd y gwiriad iechyd i gefnogi mwy o bobl i'w gymryd; a,<br><br>• Cefnogi Meddygon Teulu ar lefel Clwstwr Gofal Sylfaenol er mwyn sicrhau bod gwiriadau iechyd blynyddol o ansawdd da yn cael eu cynnal yn gyson drwy Gymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Camau gweithredu | i. Trefnu cyfarfod rhwng canolfan PNP a'r aelodau GCGAD canlynol: Chris, Edwin, Martyn, Oliver, Pauline a Wayne<br><br>ii. Ymchwilio i ymglymiad canolfan PNP â'r gwasanaethau gwarchod.<br><br>iii. Yn dilyn cais gan Chris, dywedodd Claire y byddai hi'n tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltiad therapïau mewn byw â chymorth.<br><br>iv. Darparu papur ynglŷn â sut y bydd dyraniadau grant CGI ar gyfer 2019-20 yn cael eu defnyddio er budd pobl gydag anabledd dysgu.<br><br>v. Cylchredeg y manyleb gwiriad iechyd blynyddol diwygiedig i'r aelodau. Gweithio gyda Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Pobl yn Gyntaf Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â gwiriadau iechyd blynyddol drwy Gymru a'r nifer sy'n cymryd rhan ynddyn nhw.<br><br>Gwahoddodd Karen yr aelodau i anfon e-bost ati os oes ganddyn nhw unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adroddiad cynnydd a gyflwynwyd. | **Ysgrifenyddiaeth /Aelodau**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **6.** | **Ymchwil a Gwerthusiad** | |
| | 6.1 Siaradodd Karen a Ruth ynglŷn â'r eitem hon a phwysleisiwyd y pwysigrwydd o fod yn gallu mesur y gwahaniaeth yr oedd y Rhaglen Gwella Bywydau yn ei wneud i fywydau pobl sy'n byw gydag anabledd dysgu. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, roedd angen sail tystiolaeth gref a dealltwriaeth ynglŷn â lle mae'r bylchau a beth yw'r meysydd blaenoriaeth.<br><br>6.2 Ychwanegodd Ruth ei bod yn bwysig cael gwell dealltwriaeth ynglŷn ag: ymchwil barhaus; y dystiolaeth a'r data sydd ar gael a pha mor gadarn yr oedd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | 6.3 Siaradodd Rebecca ynglŷn â'r wybodaeth ymchwil sydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a'r set ddata genedlaethol a oedd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.<br><br>6.2 Siaradodd Karen yn ogystal ynglŷn â gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a fyddai'n edrych ar sut mae rhwymedigaethau'r Ddeddf yn cael eu cwrdd. Mae'r gontract ar gyfer yr ymchwil hwn wedi cael ei dyfarnu yn ddiweddar i Brifysgol De Cymru. | |
| **Camau gweithredu** | i. Darparu adroddiad cynnydd ynglŷn ag ymchwil a gwerthusiad yng nghyfarfod GCGAD ym mis Mawrth a datblygu cynllun ymchwil erbyn cyfarfod GCGAD ym mis Mehefin.<br><br>ii. Cynigiodd yr aelodau canlynol i weithio gyda Karen, Hazel a Ruth ar ddatblygu'r cynllun ymchwil: Edwin, Joe, Martyn, Michelle, Oliver, Pauline, Rebecca a Wayne. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Aelodau a restrir** |
| **7.** | **Awtistiaeth – Ymgynghoriad ynglŷn â'r Côd Ymarfer** | |
| | 7.1 Ymunodd Julie Annetts ac Anna Harris â'r cyfarfod i siarad am yr ymgynghoriad ynglŷn â 'Datblygu Côd Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth'. Rhoddodd Anna gyflwyniad a oedd yn cynnwys: Yr Amserlen; Nodau'r Côd; Nod yr Ymgynghoriad; a 4 maes allweddol y côd. Ychwanegodd Julie y byddai fersiwn hawdd i'w ddarllen o'r ymgynghoriad ar gael yn y Flwyddyn Newydd ac yn ystod y cyfnod ymgynghori, byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r trydydd sector.<br><br>7.2 Bu trafodaeth wedyn ynglŷn â'r côd ac ynghylch a oedd yn cwrdd ag anghenion y 40% amcangyfrifedig o bobl awtistig sydd hefyd ag anabledd dysgu. Diolchodd Julie i'r aelodau am eu barn. | |
| **Cam gweithredu** | i. Er mwyn ystyried barn yr aelodau wrth ddatblygu'r Côd Ymarfer. | **Julie Annetts** |
| **8.** | **Peidiwch â Dal yn Ôl – Adroddiad y Comisiynydd Plant** | |
| | 8.1 Ymunodd Andy Wallsgrove â'r cyfarfod i siarad am | |

| | | |
|---|---|---|
| | ‘Peidiwch â Dal yn Ôl’ - adroddiad a baratowyd gan y Comisiynydd Plant ynglŷn â phontio i fyd oedolion ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu – a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018. Siaradodd Andy ynglŷn â’r cyfarfod yr oedd y Comisiynydd Plant wedi’i gael gyda grŵp o blant a’u rheini yng Ngogledd Cymru a oedd wedi arwain at yr adroddiad; adolygiad Dr Axel Kaehne o ymchwil cyfredol; a Chydweithrediadau CARP a oedd yn casglu barn gan bobl ifanc, eu rhieni a gweithwyr proffesiynol. Dywedodd Andy fod y camau nesaf yn cynnwys hysbysu pobl yn eang am yr adroddiad a sicrhau ei fod ar gael, gan geisio barn Llywodraeth Cymru; a pharhau i wrando ar bobl ifanc a’u teuluoedd.<br><br>8.2 Dywedodd Karen wrth yr aelodau fod yr argymhellion yn yr adroddiad ‘Peidiwch â Dal yn Ôl’ wedi cael eu cysylltu â’r argymhellion yn Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau (ADRhGB). | |
| **Camau gweithredu** | i. Gofynnodd Chris ynglŷn ag ymglymiad therapïau wrth bontio o blentyndod i flaenlencyndod. Cytunodd Andy i ddarganfod hyn ac adrodd yn ôl i GCGAD.<br><br>ii. Ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad Peidiwch â Dal yn Ôl fel rhan o raglen waith Anabledd Dysgu: Gwella Bywydau. | **Andy**<br><br>**Aelodau** |
| | **Themâu ar gyfer cyfarfodydd GCGAD yn y dyfodol** | |

| | | |
|---|---|---|
| | 9.1 Amlinellodd Karen ei meddyliau ar bynciau ar gyfer cyfarfodydd GCGAD yn y dyfodol.<br><br><u>Mis Mawrth</u> - trawsnewid a diweddariad ar y cynllun ymchwil.<br><br><u>Mis Mehefin</u> - diweddariad ynglŷn â gwerthusiad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru); ac adroddiad cynnydd chwemisol ynglŷn â ADRhGB.<br><br><u>Mis Medi</u> – canfyddiadau'r prosiect ymchwil ar rieni gydag anabledd dysgu a'r camau nesaf; diweddariad ar argymhellion iechyd yn ADRhGB; a'r blynyddoedd cynnar.<br><br>9.2 Bu trafodaeth wedyn ynghylch a ddylai cyfarfodydd GCGAD ganoli ar themâu a chael eu cynnal drwy Gymru, fel y'u manylir yn y Cylch Gorchwyl. Roedd y farn yn gymysg ai hyn fyddai'r ffordd orau o weithio, o gofio'r amser cyfyngedig a oedd ar gael a'r ffordd y byddai'r gwaith ym mhob un o'r themâu yn datblygu wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Trafodwyd y posibilrwydd o sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen er mwyn symud rhywfaint o'r gwaith ymlaen. | |
| **Camau gweithredu** | i. Y tu allan i'r pwyllgor, cytunodd Karen i gylchredeg mwy o feddyliau ac awgrymiadau ar gyfer eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd GCGAD yn y dyfodol. Gweithredu erbyn diwedd Ionawr ar gyfer trafodaeth bellach a chytundeb yng nghyfarfod mis Mawrth. | **Ysgrifenyddiaeth** |
| | **Dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd yn y dyfodol:**<br><br>Dydd Llun 25ain Mawrth 2019<br>Dydd Mawrth 4ydd Mehefin 2019<br>Dydd Mawrth 10fed Medi 2019<br>Dydd Mercher 4ydd Rhagfyr 2019<br><br>Pob cyfarfod i ddechrau am 11.00am a pharhau tan 3.00pm. | |